# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 15 Mai 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 137(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

(60 munud)

**NDM6722** Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU barhau i ystyried darpariaethau Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Medi 2017 a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

European Union (Withdrawal) Bill 2017-19 — UK Parliament (Saesneg yn unig)

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

## 4 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ: Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: Treth Tir Gwag

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ: Y Diweddariad ar Gysylltedd Digidol yng Nghymru

(45 munud)

## 7 Dadl: Rôl y System Gynllunio wrth Greu Lleoedd

(60 munud)

**NDM6721** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod datblygiadau a lleoedd o ansawdd a gynlluniwyd yn dda yn hanfodol i sicrhau iechyd a llesiant hirdymor pobl Cymru.

2. Yn credu bod y system cynllunio gwlad a thref mewn lle da i wneud penderfyniadau holistig ar yr amgylchedd adeiledig sy'n sicrhau bod y nodau llesiant yn cael yr effaith orau bosibl.

3. Yn cydnabod bod cael polisïau cenedlaethol cadarn ar gyfer creu lleoedd ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dangos i awdurdodau cynllunio ac eraill sut y mae arwain y gwaith o greu lleoedd a sicrhau eu bod yn rhai da.

4. Yn cydnabod y rôl y mae gweithwyr proffesiynol ym maes yr amgylchedd adeiledig yn ei chwarae yn y gwaith o greu lleoedd ac yn galw ar awdurdodau lleol i sicrhau bod adrannau cynllunio yn cael yr adnoddau i'w galluogi i fod yn effeithiol.

Argraffiad Drafft 10 o Bolisi Cynllunio Cymru

Argraffiad 9 Cyfredol o Bolisi Cynllunio Cymru

Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn credu bod angen addasu'r system gynllunio gwlad a thref i wneud penderfyniadau mwy holistig ar yr amgylchedd adeiledig sy'n gwneud y gorau o nodau llesiant ac yn cynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai.

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod yr angen am fframwaith genedlaethol gadarn ar greu lleoedd i roi canllawiau i awdurdodau cynllunio ac eraill i greu lleoedd a sicrhau eu bod yn rhai da.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu fel pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio nodyn cyngor technegol 20 ar fyrder er mwyn ei gwneud yn glir bod angen cynnal asesiadau o effaith ceisiadau unigol ar y Gymraeg mewn amgylchiadau penodol.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnwys datganiad clir ynghylch pwysigrwydd a pherthnasedd y Gymraeg wrth gynllunio sut i ddefnyddio tir.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu arolygiaeth gynllunio ar wahân i Gymru, er mwyn i'r arolygiaeth feithrin arbenigedd mewn system gynllunio Cymru'n unig.

Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 16 Mai 2018